# Trefnu’r gwaith o baratoi a sefydlu deunyddiau lluosogi

## Trosolwg

Mae'r safon hon ar gyfer y rheiny sydd yn trefnu'r gwaith o baratoi a sefydlu deunyddiau lluosogi gan ddefnyddio dulliau llystyfiant. Byddwch yn gyfrifol am drefnu paratoi'r deunyddiau Lluosogi, gan sefydlu'r deunyddiau lluosogi mewn amgylchedd tyfu a darparu ôl-ofal i gynnal a hybu datblygiad planhigion.

Mae'r safon hon yn cynnwys cydlynu eich baich gwaith eich hun, mewn rhai enghreifftiau gallai gynnwys cydlynu gwaith timau.

Bydd gennych wybodaeth sylweddol o dwf a datblygiad planhigion.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. asesu'r risg sydd yn gysylltiedig â'r safle a'r gweithgaredd lluosogi gofynnol
2. trefnu'r gwaith o sefydlu a chyfathrebu dulliau gwaith ar gyfer paratoi a sefydlu deunyddiau lluosogi
3. nodi a sefydlu argaeledd yr adnoddau sy'n ofynnol ar gyfer paratoi a sefydlu deunyddiau lluosogi
4. cadarnhau bod dillad ac offer amddiffynnol personol (PPE) addas yn cael eu gwisgo
5. sicrhau bod offer yn cael ei ddefnyddio a'i gynnal a'i gadw mewn cyflwr diogel a chywir
6. cadarnhau bod hylendid a bioddiogelwch yn cael eu cynnal yn unol ag arferion sefydliadol
7. sicrhau bod y cyfryngau tyfu gofynnol wedi cael eu paratoi yn unol â'r manylebau
8. sicrhau bod y deunyddiau planhigion a lluosogi o ansawdd addas ac wedi eu paratoi a'u trin i fodloni gofynion y manylebau
9. sicrhau bod y deunyddiau planhigion a lluosogi yn cael eu trin mewn ffordd sy'n lleihau niwed a gwastraff ac yn cynyddu twf
10. sicrhau bod dulliau sefydlu lluosogi yn bodloni'r manylebau
11. sicrhau bod deunyddiau lluosogi yn cael amgylchedd tyfu addas
12. trefnu a pharatoi rhaglen addas o ôl-ofal sydd yn cynnal ac yn hybu datblygiad planhigion
13. trefnu'r gwaith o brosesu ailgylchu neu waredu gwastraff yn unol â gofynion cyfreithiol a sefydliadol perthnasol
14. cwblhau cofnodion fel sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth berthnasol a'r gofynion sefydliadol
15. cadarnhau bod gwaith yn cael ei wneud yn unol â pholisïau amgylcheddol ac iechyd a diogelwch perthnasol a gofynion asesu risg, codau ymarfer a pholisïau sefydliadol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i nodi peryglon ac asesu risg sydd yn gysylltiedig â pharatoi a sefydlu deunyddiau lluosogi
2. sut i nodi a threfnu argaeledd adnoddau ar gyfer paratoi a sefydlu deunyddiau lluosogi
3. y mathau o ddillad ac offer amddiffynnol personol (PPE) sydd yn addas ar gyfer y gweithgaredd
4. yr offer sy'n ofynnol ar gyfer y gweithgaredd lluosogi a sut i gadarnhau ei fod yn cael ei ddefnyddio a'i gynnal a'i gadw mewn cyflwr diogel a chywir a'i sgorio'n ddiogel
5. dulliau o gynnal hylendid a bioddiogelwch a'r rhesymau pam y mae'n bwysig
6. y gofynion cyfreithiol a sefydliadol perthnasol ar gyfer trin, cludo a gwaredu gwastraff
7. sut i drefnu'r gweithgaredd lluosogi i fodloni'r manylebau
8. sut i adnabod planhigion a deunyddiau lluosogi nad ydynt yn bodloni'r manylebau neu nad ydynt o ansawdd addas a pha gamau i'w cymryd
9. dulliau priodol a ddefnyddir ar gyfer paratoi mathau gwahanol o ddeunyddiau planhigion a lluosogi
10. pwysigrwydd trin deunyddiau planhigion a lluosogi yn gywir
11. rôl triniaethau hormonau i annog gwreiddio neu ddatblygu meristem
12. y ffordd y mae amseru yn bwysig ar gyfer lluosogi llwyddiannus
13. dulliau priodol a ddefnyddir ar gyfer sefydlu mathau gwahanol o ddeunyddiau lluosogi
14. amodau amgylcheddol sy'n ofynnol ar gyfer twf planhigion
15. cyfnodau datblygiad planhigion
16. dulliau o ddarparu ôl-ofal sydd yn cynnal ac yn hybu datblygiad planhigion
17. pwysigrwydd parhau i gyfathrebu gyda'r rheiny sydd yn gysylltiedig â'ch gwaith, neu wedi eu heffeithio ganddo, a sut dylid gwneud hyn
18. y cofnodion y mae angen eu cadw a phwysigrwydd eu cwblhau
19. pwysigrwydd dilyn arfer gorau amgylcheddol ac ecolegol i helpu i leihau effaith eich gwaith ar yr amgylchedd
20. cadarnhau bod gwaith yn cael ei wneud yn unol â deddfwriaeth amgylcheddol ac iechyd a diogelwch perthnasol, codau ymarfer a pholisïau sefydliadol

## Cwmpas/Ystod

A. defnyddio'r offer a'r deunyddiau canlynol wrth drefnu paratoi a sefydlu deunydd lluosogi:

1. offer torri
2. cynwysyddion ar gyfer storio a chludo deunyddiau

B. sicrhau bod y deunyddiau lluosogi wedi cael eu paratoi yn y ffyrdd canlynol:

1. brigdorri toriadau
2. rhannu rhaniadau
3. paratoi stociau
4. paratoi impynnau

C. sicrhau bod y dulliau brigdorri canlynol yn cael eu defnyddio:

1. toriadau
2. blaguro
3. trawsblannu
4. micro-luosogi
5. rhannu
6. haenu

D. cwblhau'r gweithgareddau canlynol i gynnal a hybu datblygiad planhigion ar ôl brigdorri ac wrth ddiddyfnu:

1. dyfrio
2. rheoli tymheredd
3. rheoli lleithder
4. tynnu deunyddiau sydd wedi eu niweidio gan blâu neu glefydau
5. hyfforddi neu frigdorri i hybu ffurfio twf priodol
6. is-feithrin (micro-luosogi)
7. awyru

E. cadw'r cofnodion canlynol:

1. gweithgareddau brigdorri
2. cyfraddau llwyddiant

## Geirfa

**Ôl-ofal:**

- darparu dŵr
- darparu maethynnau
- rheoli tymheredd
- rheoli lleithder
- symud deunyddiau afiach
- hyfforddi neu frigdorri i hybu ffurfio twf priodol
- is-feithrin

**Cyfarwyddiadau:** llafar neu ysgrifenedig.

**Deunyddiau lluosogi:**

- eginblanhigion
- toriadau â gwreiddiau
- toriadau heb wreiddiau
- rhaniadau

**Dulliau paratoi:**

- brigdorri toriadau
- brigdorri rhaniadau
- paratoi stociau
- brigdorri impynnau

**Manylebau:** darluniau, amserlenni, datganiadau dull, Gweithdrefnau Gweithredu Safonol (SOP), canllawiau cynhyrchwyr, polisïau sefydliadol.

# Trefnu’r gwaith o baratoi a sefydlu deunyddiau lluosogi

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2019 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2024 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANPH9; LANL17 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Garddwr, Gweithiwr Planhigfa, Lluosogi Planhigion |
| **Cyfres/Set** | Garddwriaeth |
| **Geiriau Allweddol** | planhigyn; lluosogi |